

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Luc 1: 5-25


Stori 1 Sachareias ac Elisabeth

Roedd Sachareias a'i wraig Elisabeth yn drist iawn. Roedden nhw eisiau cael plentyn. Roedden nhw wedi gweddio a gofyn i Dduw am blentyn am amser hir. Nawr roedden nhw'n hen a doedden nhw ddim yn meddwl y byddai Elisabeth yn gallu cael babi. Un diwrnod, daeth tro Sachareias i weithio yn y deml.



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 1: 13
Gofynnwch am help i
chwilio am yr adnod hon

C Ysgrifennwch enw'r dyn, ei wraig a'r man lle'r oedd yn gweithio o dan y lluniau.



6

Yn sydyn, daeth angel yr Arglwydd. Roedd ofn ar Sachareias. Dywedodd yr angel "Paid â bod ofn. Mae Duw wedi clywed dy weddi. Bydd dy wraig Elisabeth yn cael mab. Iawn fydd ei enw."

C Llanwch y bylchau i ddangos beth a ddywedodd yr angel

Bydd dy w _ _ _ _ Elisabeth yn cael

m _ _ . I _ _ _ fydd ei enw.

6

Dyweddod yr angel y byddai'r babi newydd yn tyfu'n ddyn arbennig iawn. Byddai Duw yn ei ddefnyddio i wneud i lawer o bobl drystio'r Arglwydd a stopio bod yn ddrwg.

Doedd Sachareias ddim yn gallu credu geiriau'r angel. Roedd ef a'i wraig Elisabeth yn rhy hen i gael babi. Dywedodd hynny wrth yr angel.



Yna, dywedodd yr angel wrth Sachareias na fyddai'n gallu siarad nes bod y babi'n cael ei eni achos nad oedd wedi ei gredu.


C Ticiwch y brawddegau isod ✓ neu rhowch groes X i ddangos a ydynt yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**.

Roedd Sachareias yn dweud bod ei wraig yn rhy hen i gael babi.

Credodd Sachareias yr angel.

Dyweddod Gabriel y byddai Sachareias yn ddall.

6



Pan ddaeth Sachareias allan o'r Deml, doedd e ddim yn gallu siarad â'r bobl. Roedd pawb yn meddwl ei fod wedi gweld rhywbeth arbennig.

Cyn hir, roedd Elisabeth yn disgwyl babi. Roedd geiriau'r angel wedi dod yn wir.

C Dyma a ddywedodd yr angel wrth Sachareias:

"Mae Duw wedi
clywed dy
weddi."

2

Lliwch y geiriau - Luc 1: 13.

Mae Duw yn clywed ein gweddiau bob amser. Mae E eisiau i ni gredu y bydd yn eu hateb nhw.



DARLLENWCH
Luc 1: 26-38



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 1: 37

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon

Stori 2 Mair a Gabriel

Roedd yn amser cyffrous. Roedd Sachareias ac Elisabeth yn mynd i gael babi, ac yn awr roedd gan yr angel Gabriel rywbeth arall i'w ddweud.

Y tro hwn, aeth Gabriel i weld cyfnither Elisabeth, Mair. Doedd Mair ddim wedi priodi ond dywedodd yr angel y byddai hi'n cael mab hefyd.


Iesu fyddai ei enw a byddai'n cael ei alw yn Fab Duw.

Mae enwau yn bwysig iawn.



C Defnyddiwch y cliwiau isod i'ch helpu i lenwi'r enwau ar y Grid Geiriau

1. Enw cyfnither Elisabeth.
2. Enw'r babi newydd.
3. Enw'r angel.
4. Byddai'r Babi'n cael ei alw'n Fab _ _ _ .



8

Doedd Mair ddim yn deall yn iawn beth oedd gan Gabriel i'w ddweud. "Sut mae'r fath beth yn bosibl?" gofynnodd. "Dydw i ddim wedi priodi."

C Llanwch y bylchau i ddangos geiriau Mair.

"Sut mae'r fath beth yn b _ _ _ _ _ ?"

Dydw i ddim wedi p _ _ _ _ _ ."

Esboniodd yr angel y byddai'r Ysbryd Glân yn dod arni hi. Byddai gwyrt h yn digwydd a byddai'r plentyn yn Fab Duw.

6

C Lliwiwch yr Adnod Allweddol sy'n ein helpu i ddeall sut y digwyddodd y wyrth hon.

“Ni bydd
dim yn
amhosibl
gyda
DUW!”

3

Luc 1:37

Credodd Mair yr angel. Roedd hi'n wahanol i Sachareias – doedd e ddim wedi credu neges yr angel! Roedd Mair yn barod i dderbyn cynllun Duw a bod yn fam i'r Babi arbennig hwn.


C Ticiwch y brawddegau isod ✓ neu rhowch groes X i ddangos a ydynt yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**.

Doedd Mair ddim yn credu'r angel

Byddai'r Ysbryd Glân yn dod arni

Roedd Mair yn barod i wneud ewyllys Duw

Roedd Mair yn barod i wrando ar Dduw.
Byddai rhai pobl yn meddwl ei bod yn dweud celwydd.
Ond roedd hi'n trystio Duw. Dylen ni drystio Duw hefyd.



3



DARLLENWCH
Luc 1:57-80



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 1:76

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon

Stori 3 Ioan yn cael ei eni

Ymhen tipyn, cafodd babi Elisabeth ei eni. Dyma'r mab yr oedd Duw wedi ei addo trwy'r angel Gabriel.

Daeth eu perthnasau a'u ffrindiau i longyfarch Sachareias ac Elisabeth ac roedd pawb yn hapus.

Pan oedd bachgen bach yn wyth diwrnod oed, roedd ei rieni'n arfer rhoi enw iddo. Yn aml, byddai'r bachgen yn cael yr un enw â'i dad. Roedd pawb eisiau galw'r babi newydd yn Sachareias ond dywedodd Elisabeth "Na!"

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf enwau'r pethau hyn i gael gwybod beth oedd mam y babi eisiau ei alw.



C Lliwch y llun.

Doedd Sachareias ddim yn gallu siarad.
Ond roedd yn gallu ysgrifennu.
Ysgrifennodd "Ioan yw ei enw i fod."

C Tanlinellwch y geiriau cywir i orffen y frawddeg.

Doedd e ddim yn gallu ateb achos:

doedd e ddim yn gallu penderfynu.

doedd e ddim yn gallu siarad.

roedd e eisiau i Elisabeth benderfynu



2


1

3

C Llanwch y bylchau i ddangos beth ysgrifennodd Sachareias.

Cyn gynted ag yr ysgrifennodd y geiriau hyn, roedd Sachareias yn gallu siarad. Dechreuodd fendithio Duw.

Roedd pawb yn rhyfeddu ac aeth y newyddion trwy'r ardal gyfan. Roedd pobl yn sylweddoli bod y plentyn hwn yn wahanol ac y byddai Duw gydag ef mewn ffordd arbennig.



4

C Llanwch y bylchau yn y paragraff isod.


"Ar ôl i S _ _ _ _ _ _ _ _ y _ _ _ _ _ _ _ _ mai I _ _ _ _ fyddai enw'r babi, roedd yn gallu s _ _ _ _ _ _ _ _ eto. Roedd yn bendithio D _ _ _ . Daeth _ _ _ _ ar eu holl gymdogion.

Wrth i Sachareias fendithio Duw, dywedodd y byddai ei fab yn broffwyd a fyddai'n paratoi'r ffordd ar gyfer yr Arglwydd Iesu.

C Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir i'r cwestiynau hyn:

- 1) Pwy oedd yn bendithio Duw? **Sachareias / Gabriel / Ioan**
- 2) Pwy fyddai'n dod yn broffwyd i'r Arglwydd? **Sachareias / Gabriel / Ioan**

Wrth i Ioan dyfu'n ddyn, daeth y pethau hyn i gyd yn wir, fel y dywedodd yr Arglwydd.





DARLLENWCH

Luc 2: 1-7

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 2:7Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon


Stori 4 Geni Iesu

Roedd Mair yn edrych ymlaen at gael y babi. Roedd popeth yn barod ar gyfer y geni ganddi yn ei chartref yn Nasareth, Galilea.

Yna, daeth gorchymyn oddi wrth yr Ymerawdwr Rhufeinig y byddai'n rhaid i bawb fynd i'r ddinas lle cawsant eu geni i gofrestru eu henwau.

Roedd hyn yn golygu bod taith bell gan Mair a Joseff i Fethlehem sy'n cael ei galw weithiau'n Ddinas Dafydd.

C Ar y map, rhowch enw'r dref lle roedd Mair yn byw a'r dref yr aethant iddi.



Pan ddaethant i Fethlehem, roedd yn anodd cael lle i aros gan fod y lle mor llawn.





Doedd dim lle yn y gwesty ond fe gawson nhw le i gysgu yn y diwedd.

Dyma lle cafodd Iesu ei eni. Rhoddodd Mair ef yn y preseb lle'r oedd bwyd yr anifeiliaid yn arfer cael ei roi. Ni fyddai neb yn meddwl y gallai'r babi hwn fod mor bwysig.

C Atebwch y cwestiynau yn y Grid Geiriau.

1. Pwy oedd yn gorfod mynd i gael eu cofrestru?
2. Beth oedd enw mam y Babi?
3. Pwy aeth gyda Mair?
4. Beth oedd yn llawn?
5. Ym mha ran o'r wlad oedd Nasareth?
6. Mewn beth wnaeth Mair wisgo Iesu? Dillad



Mae cannoedd o fabanod yn cael eu geni bob dydd o gwmpas y byd ond nid oes yr un babi'n debyg i Iesu. Mae'r Babi hwn yn Fab Duw.

Amser y Nadolig fe ddylem ni ddiolch i Dduw am Ei gariad mawr yn anfon ei unig Fab i'r byd i'n Hachub ni.

C Llanwch y bylchau.

Iesu yw M ___ D ___.
Daeth Iesu i'n H _____ ni.

Cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

Cyfes lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120